

W935.5-3

# M A R W N A D

ER

**Coffadwriaeth**

AM

**Y PARCH. SAMUEL BREEZE,**

GWEINIDOG YR EFENGYL

**YN ABERYSTWYTH,**

Ond a dreuliodd yr hanner blwyddyn ddiweddaf yn Nghastell  
Newydd Emlyn;

YR HWN A FU FARW MEDI 28, 1812,

YN 40 MLWYDD OED.

---

**GAN Y PARCH. CHRISTMAS EVANS.**

---

A Dafydd a alarnadodd yr alarnad hon. .... 2 SAM. i. 17.  
Ac a wylodd wrth fedd Abner ..... 2 SAM. iii. 32.  
Oni wyddoch chwi i dywysog ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn  
Israel? ..... ADN. 38.

**ALBION-WASG:**

**ARGRAFFEDIG GAN J. JONES, LLANIDLOES,**

DROS ISAAC JONES.

—  
**1846.**

X205307514

## HANES S. BREEZE.

---

SAMUEL BREEZE a aned yn mhlwyf Llandinam, yn agos i Lanidloes, yn y flwyddyn 1772; a fedyddiwyd yn y Dolau yn 1793; daeth i gadwysgol i'r Penryn-coch, yn agos i Aberystwyth, yn Medi, 1794; dechreuodd bregethu yno yn 1795; a ordeiniwyd yn gydweinidog â John James, yn Aberystwyth, Mehefin 12, 1803; a bu yn llafurus yno, a derbyniod iawn, hyd ei fynediad i Gastell Newydd Emlyn, lle y treuliodd efe y rhan fwyaf o'i hanner blwyddyn ddiweddaf. Y mae llawer o dystion byw yno, ac yn y gymydoggaeth, o'i lwyddiant yn nychweliad pechaduriaid, ac adeiladaeth yr eglwys. Efe a hunodd yn yr Arglwydd, Medi 28, 1812, mewn modd disymwth, gan lewygfa y parlys, yn 40 mlwydd oed. Claddwyd ei gorff yn nghladdfa y Bedyddwyr yn Nghilfywyr, yn sir Benfro; a phregethodd yn ei gladdedigaeth, cyn codi allan,

y Parch. Timothy Thomas, oddiar Ioan xi. 11 :  
 "Y mae ein cyfaill Lazarus yn huno." Ac yn  
 Nghilfywyr, y Parch. D. Saunders, oddiar  
 Preg. vii. 2: "Gwell yw myned i dŷ galar, na  
 myned i dŷ gwledd: canys hyny yw diwedd  
 pob dyn; a'r byw a'i gesyd at ei galon."

## MARWNAD, &c.

---

1 GERLLAW Llanrwst, wrth deithio yma,  
Clywais newydd tryma' erioed,  
Fod BREEZE gan angau wedi'i roddi  
Yn llwyr lonydd dan ei droed :  
Yr olwyn dorodd wrth y pydew,  
Merched cerdd ddystawent oll,  
'R holl wythienau wedi 'u hattal,  
A'r synwyrâu aent ar goll.

2 Y cawg aur a'r llinyn arian,  
A'r piser wrth y ffynnon glyd,  
Oll yn dattod, ac yn tori,  
A SAM. oedd gwedi myn'd yn fud :  
Y tŷ'n cwympo ar yr enaid,  
Yntau'n dianc tua'r nen,  
Ac yn gado mangre'r ddaear  
I fyn'd i'r ardal draw i'r llen.

3 'R haul dywyllodd, ffôdd goleuni,  
Ciliodd ser yr awyr lân,  
A dychwelodd y cymylau  
'R ol y gwlaw fu ar y ma's :  
Torwyd edau fain y bywyd,  
Gauwyd pyrth yr heol fawr,  
Yr ysbryd hedodd at ei Berchen,  
A'r corff i'r pridd a syrthiai lawr. \*

- 4 Eglwys Castell Newydd Emlyn,  
 Clywaist e'n cyhoeddi ma's,  
 Fel ag udgorn mawr y Jubil,  
 Anchwiliadwy olud gras:  
 Gyda thi bu'n treulio'r Sabbath  
 Olaf gafodd gyda ni,  
 Mewn rhyw hwyl nefolaidd hyfryd,  
 Yn son am angau Calfari.
- 5 Yn y Dre' Fach fe gofir hefyd  
 Am ei bregeth olaf ef;  
 A phwy a wyddai, ond y Nefoedd,  
 Na chlywid e' mwy dan y nef?  
 Pwy dŷ fferm y bu e'n gorphen  
 Ei lafur ar y Sabbath mawr?  
 Sabbath agos iawn i ardal  
 Tragwyddoldeb tēg ei wawr.
- 6 Dydd Llun yn 'chwaneg gwelodd fore,  
 Yr ola' rifai'r Nefoedd wen:  
 Cyn myn'd allan fe addolai  
 Gyda'r teulu is y nen:  
 Ond cyn pryd yr aberth hwyrol,  
 Yr oedd ef gwedi newid tre';  
 Cyrhaeddodd Salem draw cyn swper—  
 Mae'r Iesu yno'n llanw'r lle.
- 7 Chwi glefydau dan awdurdod,  
 Sydd yn cerdded yn y bla'n,  
 Beth oedd enw eich pen-cadben  
 A saethodd at ei berson glân?  
*Apoplexy* mawr, neu'r parlys,  
 Mewn moment a'i diffwythodd e',  
 Nes oedd ei gorff yn methu symud  
 Mwy na marw yn y lle.

- 8 Mae fy meddwl mewn rhyw syndod,  
 Gyda'r cerbyd\* aeth ag ef  
 I fewn i'r tŷ lle cafodd huno,  
 O'r lle y deffrodd yn y nef;  
 Gweled yno y ddau Ddoctor  
 Yn rhoddi'r olwyn yn ei lle,  
 I dafu'r gwaed trwy bibau'r galon:  
 Ond yn ofer medd y Ne'.
- 9 Rhaid oedd i ddyfais y meddygon  
 Fethu cadw Breeze yn fyw,  
 O herwydd d'od y dydd a drefnwyd  
 Iddo fyn'd at Iesu gwiw:  
 Am un-ar-ddeg dydd Llun yn union,  
 Y tarawyd dan ei fron,  
 Ac am bump prydawn ffarwelodd  
 A holl wrthddrychau'r ddaear hon.
- 10 Yn fy meddwl 'rwyf yn crwydro,  
 A'm holl gyneddfau dan ryw bwys,  
 'Fyny, waered, 'r hyd y 'stafell,  
 Lle'r oedd yn gorwedd dan ei grwys;†

---

\* Yr oedd Breeze yn pregethu, y Sabbath olaf ag y bu ar y ddaear hon, yn y Castell Newydd am 10, yn y Dref Fach am 3, ac mewn rhyw dŷ fferm yn y gymydogoeth hono am 6. Yr oedd rhyw arddeliad tra nerthol a neillduol ar ei bregethau hanner blwyddyn cyn iddo farw, fel y gwnaeth lawer mewn ychydig amser. Gwedi gweddio gyda'r teulu bore dydd Llun, cychwynodd adref; ond tarawodd y parlys ef, fel mai mewn cerbyd yr aed âg ef i dŷ Mr. Davies, o'r *Bank*, lle y bu ef farw.

† Dywedir yn y Deheudir, pan y byddo corff marw yn ei amdo, "ei fod yn gorwedd dan ei grwys." Arferid, yn nyddiau Pabyddiaeth, osod llenllian wen, a

Edrych fyth, ac edrych hefyd  
 Ar ei wyneb yn yr arch,  
 Gan anadlu mân riddfanau  
 I borth y nef mewn sel a pharch.

11 Daeth dydd Mercher, dydd cynhebrwng,  
 'Roi i'w orwedd yn y bedd,  
 Draw yn mynwent lās Cilfywyr,  
 Yno dodwyd ef mewn hedd;  
 Chwe chant o bobl a'i danfonodd  
 I mewn i dŷ ei artref hir;  
 Trist a phrudd oedd eu hwynebau  
 O hiraeth am ei gollï'n wir.

12 Yn Nghilfywyr, yn y fynwent,  
 Y gorwedd llawer gŵr dilys,\*  
 George Rees o'r Cilgwyn, ŵr ffyddlonaf,  
 A'r anwylaf gyfaill Breeze;  
 Rho'weh arwydd *cleddyf* fel beddargraff,  
 Canys milwyr fuont hwy,  
 A llun y *corn* † a fu'n cyhoeddi  
 Y jubil am y marwol glwy'.

---

llun croesau arni, ar gyfer y corff marw; o herwydd  
 paham tybia rhai mai oddiwrth y gair *croesau* y mae y  
 gair yn tarddu: ond tybia ereill mai *craw-wŷs* ydyw  
 ystyr y gair, yn arwyddo fod yr enaid wedi cael *gwŷs*  
 i ymddangos mewn barn.

\* Dilys yw gwirioneddol neu ddiamheuol.

† Bedd âg arwydd y *corn* arno. Pa mor salw a di-  
 sylwedd oedd y clod a fu i Julius Cesar, Alexander  
 Fawr, neu Hannibal penciwodod Carthage enwog yn  
 Affrica, am eu holl fuddugoliaethau yn y rhai y buont  
 yn foddion i ddystrywio yn lle achub dynion! Ond  
 rhoddas Duw fendith ar weinidogaeth y gwŷr uchod i  
 goncwerio Satan a phechod, a chyhoeddi gollyngdod i  
 gaethion marwolaeth yn y Deau a'r Gogledd.



- 13 Mewn tŷ o bridd y mae e'n gorwedd,  
 Heb glywed sŵn na chynhwrf maith  
 Yr udgorn euraidd yn y pulpit  
 Yn galw'r bobl at eu gwaith;  
 Bloedd medelwyr Iesu wrth gasglu  
 Yr ysgubau yn y ma's,  
 Yn ei ymyl, er hyn ni chyfyd  
 O'i feddrod yn y ddaear lās.
- 14 Caiff cym'dogaeth hen Gilfywyr  
 Yru eu ceirt a thrin y byd,  
 Gyru'r ychain i aredig,  
 Ond ef yn ddystaw ac yn fud;  
 Yn nhir anngho'n cysgu'n llonydd,  
 Heb ddim chwyrru yn ei hân,\*  
 Mae nes delo'r Iesu ei hunan  
 I'w godi i'r lan ar nefol lun.
- 15 O Glan Teifi, a'i glyn tawel,  
 Ni chewch glywed byth mo'i lais  
 Megys taran ac fel telyn,—  
 Cael Iesu i fyny oedd ei gais :  
 Rhoed peroriaeth† yn y beddrod,  
 Rhoed awdurdod yn y pridd;  
 Ei ddoniau ef, oedd yn ardderchog,  
 Sydd yn gorwedd o dan gudd.

---

\* Yr oedd ef mewn bywyd yn arferol â chwyrru yn boenus iawn wrth gysgu. Dichon fod hyny yn arwyddo fod y llewygfeydd a fuont yn angau iddo yn aros er's blynyddau lawer yn ei waed ef. "Gosodwyd i ni farw unwaith."

† Yr oedd mwy o beroriaeth naturiol yn perthyn iddo nag un dyn a glywais i yn canu erioed.



16 Dywaid angau glàs, a'th gleddyf,  
 Pam y toraist ieuanc ŵr,  
 Un ychydig wedi deugain,  
 A grym ei gorff fel cadarn dŵr?  
 Pam na b'asit di yn symud  
 Y rhai sy gwedi treulio eu nerth,  
 Ac yn griddfan gan afiechyd,  
 Wrth ddringo fyny'r creigiau serth?

17 "Gŵr wyf fi sy dan awdurdod  
 " Yr Iesu hwnw fu'n y bedd;  
 " Rhaid imi symud, pryd y mayno,  
 " Ei blant o'r byd i'r nefol wledd;  
 " Ac oriau Breeze nid o'ent yn cyraedd  
 " Ddim yn rhagor yn y byd,  
 " Ac oedi wneis nes oedd e'n addfed,  
 " Megys ysgafn lawn o ýd."

18 Aberystwyth, lle bu'n aros  
 Lawer blwyddyn faith yn nghyd,  
 Yn pregethu i'r trigolion,  
 A'r dyeithriaid yn y byd:  
 Saeson pell o ganol Lloegr,  
 I'r ymolch-leoedd cyrchent hwy;\*  
 Wrth wrando Breeze ca'dd rhai adnabod  
 Yr olchfa sy mewn marwol glwy'.

19 Tal-y-bont sy'n awr yn griddfan,  
 Penryn hefyd dan y loes,

---

\* Y mae ymgyrchfa gan luaws o'r Saeson i Aberystwyth yn flynyddol i ymdrochi yn y môr. Yr oedd rhai o honynt yn cael eu deŵu i ddyfod i wrando Breeze yn pregethu Saesonaeg; canys yr oedd yn dra rhigyl yn yr iaith hòno: a bu yn offeryn i alw rhai o honynt at Grist.

O achos colli casglwr grawnion  
 O'r grawn-sypiau ar y groes:  
 Ffarwel bellach, gall ef dd'wedyd,  
 I'r absenau cas yn nghyd,  
 D'weyd cyfrinach, a'r athrodi,  
 A gafodd yma yn y byd.

20 Mae ef heddyw wedi dianc  
 Allan o lochesau'r llew,  
 Mynyddau ffyrwig y llewpardiaid,  
 A'r serth greigiau blin o rew—  
 'Ffeithiodd ar ei sel a'i gariad,  
 Nes gwan-galoni yn y lle;  
 Cilio wnaeth i'r Castell Newydd,  
 I gael llonydd dan y ne'.

21 Pan ddaeth yno, gwedi 'i faeddu  
 Yn Hermon ac yn Senir gre',  
 Daeth rhyw nerthoedd a chref awel  
 Gydag ef o Salem le;  
 Dagrau redodd yno'n amal,  
 C'lonau celyd aeth yn friw,  
 Ca'dd llawer wel'd gogoniant Iesu,  
 Yn berffaith ddyn a pherffaith Dduw.

22 Eglwysi Môn, yn eitha'r Gogledd,  
 Sy heddyw'n gwisgo'r llian sach,  
 Wrth gofio Breeze uwchben cynifer  
 Yn dyrchafu'r Baban bach  
 Ga'dd ei eni draw yn Methle'm,  
 Mewn natur o'r un fath a ni,  
 Ac a fu farw yn goncwerwr  
 Ar ben mynydd Calfari.

23 Liverpool a Llundain hefyd  
 Fu'n ei wrando gyda blas,

Saeson, Cymry, ac Ysgotiaid,  
 Yn datgan am oludoedd gras,  
 Nes oedd dagrau fel pistyllau  
 O lygaid Sais yn cwympto lawr,  
 Pan oedd Aberth pen Calfaria  
 Yn dangos mewn gogoniant mawr.

24 Sir Gaernarfon a Sir Ddinbych  
 Ni chânt glywed mo'no ef,  
 A'r olew euraidd yn ymdywallt  
 O bibellau trefn y Nef:  
 Maesyfed, Meirion, a Threfaldwyn,  
 Ni chânt sain ei araeth gref,  
 Megys drwm neu udgorn arian,  
 Wrth gario baner Brenin nef.

25 Ei ragoriaeth fel pregethwr\*  
 Ar holl Gymry oll o'r bron,  
 Oedd yn ngwedd ei wyneb siriol, †  
 A sŵn ei lais fel rhuad tòn:

---

\* Yr oedd Breeze yn areithydd da yn y ddwy iaith, Cymraeg a Saesonaeg. Pa mor ddfudd yn ngwyneb tragwyddoldeb yr ymddengys cân Homer, y bardd Groegaidd, ac areithiau clodus a gorchestol Demosthenes, wrth eu cydmharu â phregeth iachus, fywiog, danlyd, yn dwyn i'r goleuni, mewn gwawr o sirioldeb dwyfol, ddirgelion ein hiachawdwriaeth! Cafodd Breeze y fraint o bregethu felly lawer gwaith, er llawenydd i ni.

† Yr oedd gwynebpryd Breeze yn lân-dêg naturiol, ac yn cael ei wedd-gynewid yn dra siriol wrth bregethu. Wrth draethu am bethau bygythiol, yr oedd gwedd ei wyneb yn gerwino ac yn duo fel y nos, a'i ddau lygad mawr fel yn melltenu; ond pan yn cyhoeddi Crist a'i ras, yr oedd ei lygaid fel dwy seren siriol ar noswaith o rew cadarn, yn gwingo yn oleu danlyd, fel yn gwreichioni o gariad a thynwrch, a'i holl wyneb wedi ei wisgo â sirioldeb, mwynedd-dra, a serchogrwydd, gydag amrywiaeth tra hynod yn ei lais.

Yn y ddau beth hyn rhagorai  
 Ar bob un a glywais i  
 Yma yn mhulpuadau Cymru  
 Yn traethu am angau Calfari.

26 Weithiau byddai i lais e'n hynod,  
 Fel pe b'asai Sinai fryn  
 Yn taranu ac yn mygu  
 Fel y bu ef gynt yn llyn;  
 Bryd arall byddai yn Golgotha,  
 Lle caed y goncwest fawr cyn hyn,  
 A'i eiriau megys gwllith o Hermon  
 Yn gap a tho ar Seion fryn.

27 Bùm inau gydag ef yn teithio  
 Yn mheryglon y llif-ddŵr,  
 Ac weithiau yn y rhew a'r eira,  
 Wrth fyned dros y Canol-ŵr;  
 Draw yn nentydd Aberystwyth,  
 A Chader Idris oer ei gwawr,  
 Yn y Traeth Mawr ac yn y Bychan  
 Buom bron â suddo lawr.

28 Poethlyd oedd ei dymher natur  
 Tra fu yma gyda ni;  
 Ond mae heddyw wedi ei buro  
 Yn mhuredigaeth Calfari:  
 Gwendidau \* fu ar seintiau ereill,  
 Ac felly'n ddiau yr oedd ef;

---

\* Yr oedd beiau yn perthyn hyd yn nod i Jonatham yn gystal ag i Saul; ond nid yw Dafydd yn crybwyll ond am eu rhinweddau yn y farwnad a wnaeth am eu *haergwmp* galarus trwy gleddyf y Philistiaid ar Gilboa, yr hon yw y farwnad henaf yn y byd fe ddichon. Pan y mae Duw yn canmol ei bobl, y mae yn gwneyd.

Ond fe'i golchwyd ac fe'i cânwyd  
Gan drugaredd rad y nef.

29 Cyfaill calon oedd i'r drefen  
Luniwyd mewn cyfammod rhad,  
I olchi'r aflan, cânu'r Ethiop,  
Trwy rinweddau'r dwyfol wa'd;  
A holl weithrediad nefol Ysbryd  
Yn argyhoeddi dyn o'r bron;  
Rhoi ffydd yn Nghrist, a selio'r cyflwr  
Hyd ddydd gollyngdod seintiau llon.

30 Brawd ffyddlonaf oedd e'n wastad,  
Yr oedd gonestrwydd yn ei rudd;  
Pob peth farnai e'n wirionedd  
A lefarai yn ddigudd;  
Eto nid oedd yn rhagfarnllyd,  
Ond carai e' bob rhan o'r nef  
A welai'n mhlith y pleidiau ereill  
Na pherthynent iddo ef.

31 Anwyl frawd, rhaid rhoddi ffarwel  
Iti hyd y bore mawr,  
Pan bydd corn a bloedd yr angel  
Yn codi fyny lwch y llawr:  
Trwy ras 'rwy'n dysgwyl gwel'd fy nghyfaill  
Yn d'od i'r lan heb fod yn gloff,  
A'r gelyn olaf gwedi ei faeddu  
Gan y Prynwr anwyl hoff.

---

hyny hyd adref. Gwel siampl Job, pen. i. 8; "A ddeliaist ti ar fy ngwas Job, nad oes gyffelyb iddo ar y ddaear, yn ŵr perffaith ac uniawn, yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni?"

- 32 Mae y ddaear yn dyeithrio  
 Imi'n fwy o ddydd i ddydd;  
 Colli brodyr yn yr eglwys,  
 Colli cedyrn yn y ffydd;  
 Colli Lewis, colli Evans,  
 Colli Williams, colli ar frys,  
 Colli yn y De a'r Gogledd,  
 Ac yn olaf, colli Breeze.
- 33 Fel y pelican ei hunan  
 Byddaf bellach, digon gwir,  
 Mewn cymanfa'n cynyg ennill  
 Rhai i ymwel'd â'r Gogledd dir:  
 Yr oedd Breeze\* yn hawdd ei ddenu  
 I dd'od i gymanfau y *North*,  
 Er fod yn llawer haws i ereill:  
 Ond fe fu'r Arglwydd iddo'n borth.
- 34 Mewn trallodau trist newyddion,  
 Gwedi cerdded yn y bla'n  
 O Gaerdydd i ben Caergybi,  
 Merthyr a Brecheiniog lân,  
 Abertawe a Llanelli,  
 Sir Benfro a Chaerfyrddin fawr;  
 Trwy Aberteifi oll mae griddfan  
 Am ei osod yn y llawr.
- 35 Llangefni, Capel Gwŷn, ac Amlwch,  
 Sy'n galaru gyda hwy;  
 Tre' Rhuthyn, Dinbych, a Phwllheli,  
 Dolgellau, Wrexam, dan y clwy';

---

\* Y mae cydnabyddiaeth ddiolchgar gan eglwysi y Gogledd iddo ef ac ereill am eu hymdrech i deithio i fyny i'w cymanfaoedd. Boed eu henw yn llyfr y bywyd.

Nid oes ardal nad oes griddfan,  
 O'r Wyddfa† i'r Plumlummon‡ mawr,  
 Yn rhodio'n athrist gan eu hiraeth,  
 Yn brudd ac isel iawn eu gwawr.

- 36 Dyn a gollwyd gynt yn Adda,  
 Dyn a gadwyd yn yr Ail,  
 Dyn a gafodd ei holl gyfoeth  
 Ar y gwaelod, gadarn sail;  
 Un berthynai i'r cwmpeini,  
 Drindod santaidd, Tri yn Un,  
 Cafodd fywyd wedi ei guddio  
 Yn gryno'n angau Mab y dyn.

- 1 Och! am enwog weinidog hy',—syml Brawd  
 Samuel Breeze fwyngu;  
 Och! un o fil, a chŵyn fu,  
 Hydr was isod dros Iesu.
- 2 Heddyw rhyfedd hawdd rhifaw,—o ddyinion  
 Di-ddaioni fel yn teithiaw;  
 'Rol y dorf yn farwol draw,  
 Pa'r golled weled wylaw? C. E.
- 3 Seiniau, gawrai fel garw-un,—ei lais oedd  
 A'i lwyswedd yn ddychryn  
 'N Sinai—'Nghalfaria fryn  
 Gweniadau ddiagon wed'yn.
- 4 'Rol dawn Breeze mae'r wlad yn brudd,—o'i charu,  
 O'ch hiraeth i'r gwledydd,  
 Hiraeth ac och o'i herwydd,  
 Gair dwfn o Gybi i Gaerdydd. B. J.

† Yr Wyddfa yw y mynydd uwchaf yn sir Gaernarfon.  
 ‡ Plumlummon ydyw enw mynydd tra uchel, yn  
 sefyll yn rhyw le tua chydiad siroedd Aberteifi a  
 Threfaldwyn.

Albion Wasg :—J. Jones, Argraffydd, Llanidloes.